



POLISI AMDDIFFYN RHAG YR HAUL Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

NOD

Nod y cylch yw sicrhau y gall y staff a'r plant fwynhau'r haul yn ddiogel. Bydd y cylch yn gweithio gyda'r staff, y gwirfoddolwyr a'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid i gyflawni hyn.

COD YMARFER

Bydd y cylch yn;

Amgylchedd

- cynnal asesiad risg o'r man chwarae tu allan
- sicrhau bod mannau cysgodol ar gyfer y plant a'r staff
- sicrhau cysgod parhaol lle mae'n bosibl trwy blannu coed a llwyni. Lle nad yw hynny'n bosibl, mae'r cylch yn sicrhau bod gasibo neu orchudd tebyg ar gael i'w osod yn gyflym.

Dillad

- sicrhau bod plant yn gwisgo het haul a, lle mae'n bosibl, dillad sy'n gorchuddio'r croen pan fyddant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod yr haf.
- Sicrhau bod staff y cylch yn gwisgo hetiau haul pan fyddant yn yr awyr agored er mwyn hyrwyddo arfer dda.

Eli Haul

- gofyn caniatâd rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid (**gweler ffurflen EH Atodiad 4**) i'r staff gynorthwyo plant i roi eli haul cyn iddynt fynd allan i chwarae yn yr awyr agored yn ystod yr haf.
- Gofyn i rieni ddarparu potel o eli haul ar o leiaf factor 30+ sy'n addas ar gyfer eu plentyn, ac wedi ei labelu'n glir. Os na fydd gan y plenty eil haul ei hun yna bydd staff y Cylch yn darparu eli haul Nivea 30+.

Addysg

- cyflwyno negeseuon i'r plant am ddiogelwch yn yr haul trwy stori a gwaith creadigol.
- atgoffa'r holl staff ynglŷn â phwysigrwydd diogelwch yn yr haul yn ystod tymor y gwanwyn yn flynyddol.